# Fforwm Cwsmeriaid

## Prif faterion a drafodwyd

### 04/12/25

15:00 – 17:00

Kensington Court, Steynton

**Cwsmeriaid**: Dros 24 o gwsmeriaid gan gynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Cwsmeriaid, sef Liz, Peter a Brian.

**Staff**: David Tovey (Pennaeth Cwsmeriaid), Ian Whitby (Syrfëwr Cydymffurfio – Diogelwch Tân), Scott Davis (Rheolwr Cydymffurfio Iechyd a Diogelwch Landlord), Marilyn McCarthy-Sarre (Arweinydd Rheoli Cyfleusterau), Ali Evans (Cydlynydd Ymgysylltu), Amy Williams (Arweinydd y Tîm Atebion o ran Tai), Gina Driscoll (Cydlynydd Tai), Linda Manson (Cydlynydd Byw'n Annibynnol), Sue Mackie (Arweinydd y Tîm Datblygu Cymunedol)

### Cyflwyniadau a chroeso

- Croesawodd y Pennaeth Cwsmeriaid y sawl a oedd yn bresennol gan gyflwyno'r sesiwn.
- Cafodd aelodau'r Pwyllgor Cwsmeriaid (tri chynrychiolydd) eu cyflwyno.

### Polisi dim mynediad

- Esboniodd y Pennaeth Cwsmeriaid bwysigrwydd cael mynediad i gartrefi cwsmeriaid er mwyn cynnal profion diogelwch trydan a nwy, sy'n orfodol.

### Iechyd a diogelwch landlord

- Bu'r Syrfëwr Cydymffurfio (Diogelwch Tân) yn trafod nodweddion diogelwch mewn fflatiau sydd heb ddrws cefn, gan esbonio sut y mae'r dyluniad yn bodloni safonau diogelwch.

- Nododd y Rheolwr Cydymffurfio Iechyd a Diogelwch Landlord mor anodd yw cael mynediad i gartrefi er mwyn cynnal profion gorfodol, gan nodi bod y landlord wedi ceisio cael mynediad i rai cartrefi 25–40 o weithiau.
- Yn ystod y drafodaeth hon, soniodd un cwsmer sydd â nam ar ei golwg am ei phrofiad o gael gohebiaeth mewn fformat anaddas, er iddi roi gwybod am hynny i ateb fwy nag unwaith.

## Egwyl

- Mwynhaodd y sawl a oedd yn bresennol fins-peis a chacennau.

## Paratoi ar gyfer y gaeaf

- Esboniodd yr Arweinydd Rheoli Cyfleusterau pam nad yw cymdeithasau tai'n rhoi halen ar y ffyrdd yn ystod y gaeaf.

## Unrhyw fater arall

- Mynegodd cwsmer bryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Aeth y Pennaeth Cwsmeriaid i'r afael â'r mater gan amlinellu beth y gall ateb ei wneud mewn achosion o'r fath.

## Diweddariadau gan y fenter Ymgysylltu

- Rhoddodd y Cydlynydd Ymgysylltu ddiweddariadau ynghylch arolwg diweddaraf y fenter Ymgysylltu, gan atgoffa'r sawl a oedd yn bresennol am y Grŵp Cynllunio Arolygon.

## Sylwadau clo

- Gan fod dros 24 o gwsmeriaid yn bresennol o amryw wahanol fathau o eiddo, roedd y sesiwn yn cynnwys cwestiynau heriol a diddorol. Rhoddodd hynny gyfle i **ateb** egluro beth y gall ei wneud, a beth na all ei wneud, ar ran cwsmeriaid.
- Cafodd cwsmeriaid, fel hyrwyddwyr eu cymunedau, eu hannog i rannu gwybodaeth am wasanaethau ateb a sôn wrth bobl eraill amdanynt—gan atgyfnerthu diben y Fforwm Cwsmeriaid.

**Dyddiadau i'r dyddiadur:**

- **Grŵp Cynllunio Arolygon:** 9 Rhagfyr; 10:00-11:00
  - Adolygiad 6 mis o'r camau gwella yng nghyswllt yr Arolwg o'r Gwasanaeth Glanhau Ardaloedd Cyffredin
  - Gwirio cynnydd o ran Arolwg STAR, a fydd ar waith bryd hynny
  - Canlyniadau'r Arolwg Rhent

- **TPAS Cymru – Rhwydwaith Anabledd – Gwneud Tŷ yn Gartref (Addasiadau):** Dydd Mercher 10 Rhagfyr, 12pm-1pm

- **TPAS Cymru – Gwarant Allforio Clyfar Wedi'i Symleiddio: Sesiwn Gyflwyno gan TPAS Cymru – Ailadroddiad:** Dydd Mawrth 16 Rhagfyr, 2pm-3.15pm

**Caiff help gyda chludiant a chostau cludiant, gofal a dewisiadau o ran bwyd ei ddarparu ym mhob un o ddigwyddiadau Ymgysylltu ateb**

**CYSYLLTU Â NI:**

**Ali Evans** (Cydlynydd Ymgysylltu)

01437 774766 / 07500 446611 ailinor.evans@atebgroup.co.uk

**Sue Mackie** (Arweinydd y Tîm Datblygu Cymunedol)

01437 763688 susan.mackie@atebgroup.co.uk

**Anne Kerr-Hughes (Swyddog Ymgysylltu REACH)**

07832 245962 anne.kerr-hughes@atebgroup.co.uk

**Andrew Jenkins** (Cynghorydd Lles Cymunedol)

01437 774770 / 07508 498855 andrew.jenkins@atebgroup.co.uk

---